



Young Enterprise Menter yr Ifanc

A member of/Aelod o JA Worldwide

TEAM
PROGRAMME

- GALLU ARIANNOL
- ENTREPRENEURIAETH
- PARODRWYDD AM WAITH

YNGLŶN Â'R RHAGLEN

Lluniwyd y Rhaglen Tîm i helpu myfyrwyr ag anawsterau dysgu ysgafn i gymedrol i bontio o addysg i fyw'n annibynnol a chyflogaeth.

Gyda chefnogaeth yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a Chynnyrch gwerth £10m, bydd myfyrwyr yn creu a chynnal cwmni yn ystod blwyddyn academiaidd, gan ddatblygu hyder a sgiliau bywyd.

Bydd pob myfyriwr yn ymgymryd â rôl swydd yn y busnes, fel Rheoli, Cyllid, Marchnata, a Gwerthiannau. Gyda chymorth gan addysgwyr a chynrychiolydd Young Enterprise, byddan nhw'n cael profiad o reoli arian, agor cyfrif cyfredol busnes Equals Money, ymgysylltu â chwsmeriaid, a chyflwyno i gynulleidfa.

NODWEDDION ALLWEDDOL

- Mae'n addas i bobl ifanc 15-19 oed (cymwysterau lefel mynediad/lefel 1)
- Mae'n gallu para am 12 wythnos i hyd at flwyddyn academiaidd
- Canllaw cyflawni argraffedig ac adnoddau ar-lein
- Cymorth a chynghor gan wirfoddolwr
- Y pris yw £560 yn unig fesul cwmni myfyrwyr (hyd at 32 o fyfyrwyr) ar gyfer ysgolion y wladwriaeth, neu £2,500 ar gyfer ysgolion annibynnol (mae gostyngiadau amleitem ar gael)



CANLLAW CYFLAWNI/GWEFAN

I gynnal y rhaglen, bydd addysgwyr yn cael canllaw cyflawni'r Rhaglen Tîm sy'n cynnwys adnoddau y gellir eu haddasu. Bydd hyn yn eich galluogi i ddewis adnoddau sy'n briodol i'ch myfyrwyr.

Bydd addysgwyr hefyd yn cael manylion mewngofnodi i'n gwefan benodol, Company Connect, sy'n rhoi arweiniad i chi a'ch myfyrwyr.




“Mae'r cynnydd y mae ein myfyrwyr yn ei wneud trwy gymryd rhan bob blwyddyn yn amlwg. Mae hyder a sgiliau cyfathrebu yn cynyddu'n sylweddol ac mae hyn yn cael effaith fawr ar eu gallu i gael cyflogaeth gynaliadwy.”

– Addysgwr

CANLYNIADAU DYSGU O'R RHAGLEN TÎM

Bydd cymryd rhan yn y Rhaglen Tîm yn annog pobl ifanc i:

- Ennill hyder wrth drin arian a deall rhifau mewn cyd-destun ymarferol
- Datblygu hyder i gyfathrebu a rhyngweithio â phobl mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, gan gynnwys gweithio mewn tîm
- Deall a datblygu sgiliau bywyd hanfodol i helpu i bontio i gyflogaeth neu fyw'n annibynnol
- Datblygu hunanymwybyddiaeth i adnabod cryfderau personol, dewisiadau, meysydd ar gyfer datblygiad personol a'r hyn y gellir ei gynnig i gyflogwyr yn y dyfodol



SUT GALLA' I GOFRESTRU?

I gael gwybod mwy neu gofrestru, ewch i young-enterprise.org.uk



CYNNAL Y RHAGLEN A CHYSTADLAETHAU

Gellir cynnal sawl cwmni myfyrwyr o'r un ysgol, coleg neu ganolfan gyda hyd at 32 o fyfyrwyr ym mhob tîm.

Gall cwmnïau myfyrwyr gymryd rhan mewn cystadlaethau, gan ymestyn cyfleoedd i ddatblygu dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys sgiliau cyflwyno, rheoli arian, cyfathrebu a gwaith tîm.



BUDDION YCHWANEGOL

- Mae'n cyflawni elfen sgiliau cynllun Gwobr Dug Caeredin
- Gellir ei defnyddio i gefnogi Cymhwyster Prosiect Estynedig Pearson
- Mae'n cyfrannu tuag at Feincnodau Gatsby ar gyfer cyfarwyddyd gyrfaoedd da
- Mae'r myfyrwyr yn cael tystysgrif bersonol

THE GATSBY BENCHMARKS
GOOD CAREER GUIDANCE



Skills Builder
Progressing in
essential skills

2026-27

Registered Charity 313697 in England & Wales and SC054666 in Scotland.